

# Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Sarah Beasley
Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2019	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15	0300 200 6565
	<a href="mailto:Seneddlechyd@cynulliad.cymru">Seneddlechyd@cynulliad.cymru</a>

---

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15–09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(09.30)
- 2 Gwasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Sesiwn dystiolaeth gyda David Jenkins**  
(09.30–11.00) (Tudalennau 1 – 12)  
David Jenkins, Cynghorydd Annibynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg  
  
Briff Ymchwil  
Papur 1 – David Jenkins
- 3 Papurau i'w nodi**  
(11.00)
  - 3.1 Gwybodaeth ychwanegol gan y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**  
(Tudalennau 13 – 39)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.**  
(11.00)



- 5 Gwasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Trafod y dystiolaeth**  
(11.00–11.15)
- 6 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trafod y dystiolaeth ac ystyried themâu sy'n dod i'r amlwg.**  
(11.15–12.00) (Tudalennau 40 – 85)

Papur 3 – Materion allweddol i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu)

- 7 Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr: Trafod yr adroddiad drafft**  
(12.00–12.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ty Brith Cottage  
Twyn Square  
Usk  
Monmouthshire  
NP15 1BH

Dr Dai Lloyd AM  
Chair, Health, Social Care and Sport Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

6 October 2019

Dear Dr Lloyd,

### **Cwm Taf Morgannwg University Health Board**

Thank you for your letter dated 30 September 2019, confirming your invitation for me to attend the National Assembly's Health, Social Care and Sport Committee on 17 October 2019 to discuss the work I have been undertaking at Cwm Taf Morgannwg University Health Board.

In advance of our meeting you have asked for some information concerning my specific role and responsibilities; the timescale for my work; the resources available to support me in my work; details regarding the Board Development Programme which is now being put in place; my working relationship with the Chair and Board; the process by which advice and support is given and how I measure its implementation, alongside my reporting arrangements with the Minister. I will address each of these in turn.

#### Specific Role and Responsibilities

I note that your letter is headed 'Maternity Services at Cwm Taf Morgannwg UHB' and that you refer to the Committee having heard from Mick Gionassi and Cath Broderick regarding the work of the Independent Maternity Services Oversight Panel. It may be helpful therefore if I clarify that my role is not specifically focussed on the Health Board's maternity services nor the report and recommendations of the Royal Colleges.

In a Written Statement published on 30 April 2019 the Minister for Health and Social Services set out his serious concerns both for the Health Board's maternity services, which he placed into Special Measures, as well as for the overall effectiveness of the Board's leadership and organisational governance, particularly as this applied to the quality of the Health Board's services. These wider concerns resulted in the Minister raising the Health Board's overall escalation status to Targeted Intervention. The Minister appointed me as an Independent Advisor to the Health Board for the purpose of supporting the Board in addressing these wider concerns and in making the changes necessary for it to provide effective leadership and governance and have a clear focus on service quality.

Specifically, my role is to provide support to the Health Board Chair; to provide feedback to the Board based on my observations and discussions; and to report to the Minister regarding my assessment of the Board's ability to deliver alongside whether any further actions are required. This includes attending Board and Committee meetings, reading

Board and Committee papers and having individual and collective discussions with Board members. My role is not to take decisions, but to observe, discuss, assess and advise. The activities being undertaken by the Independent Maternity Services Oversight Panel are of course relevant to my work and I have kept in contact with the Panel throughout the past six months.

### Timescale

I was appointed for a period of six months running from 30 April 2019 to 30 October 2019, with the possibility that this might be extended. I am expected to spend up to ten days each month undertaking this work.

### Resources available

Given the nature of the work I am undertaking there is little requirement for dedicated resource support. Since my appointment I have received the full cooperation of and assistance from the Health Board including access to the Health Board's electronic Board and Committee papers and administrative support in arranging meetings. I have also been supported through regular discussion with Janet Davies, Deputy Director, Welsh Government Health and Social Services Group and lead officer for the Cwm Taf Morgannwg interventions. In addition I have kept in contact with the NHS Wales Delivery Unit, Health Inspectorate Wales and the Wales Audit Office, all of whom have been undertaking reviews during the past six months regarding services provided by the Health Board and which are relevant to my work.

### Board Development Programme

I have participated in commissioning a twelve month Board Development Programme which has recently commenced. The Programme is being delivered by Deloitte and funded by Welsh Government. This Board Development Programme is intended to provide the Board with the enhanced skills and understanding needed to lead a high performing, quality focused organisation able to exercise strong and effective governance. Whilst the Programme will be dynamic and tailored to meet the needs of the Board, it can be expected to cover values and behaviours; quality governance; strategy development; scrutiny and challenge; risk appetite and assurance; and effective Board working.

### Working Relationships

Keeping in mind that my role is intended to be supportive and advisory, I have established what I believe to be good working relationships with the Chair and with other Board members, both executive and independent members. My previous role as Chair of the Aneurin Bevan University Health Board enables me to understand issues from a Board member perspective and I believe my comments and observations are appreciated on that basis.

### Advice and Support

In gathering a background understanding of the Health Board I have had discussions with the Wales Audit Office, Health Inspectorate Wales, the NHS Wales Delivery Unit, the Community Health Council, the Health Board's Internal Auditors and staff trade union representatives. In gathering a day to day understanding of the Board I have received and read the papers and reports which have been prepared for the Board and its Committees

and I have attended meetings of the Board and its Committees, both in public and in closed sessions.

On that basis I have had regular meetings and discussions with the Chair, both with regard to matters on the Health Board's agenda and with regard to the processes and procedures followed by the Health Board in dealing with those matters. I have had meetings with the Chief Executive and I have met Board members, both on a one to one basis and collectively. During these meetings and Board Development sessions I have provided feedback based on my reading and observations, and I have contributed to discussions during Board Development sessions.

My remit of working with the Board to improve the overall effectiveness of the Board's leadership and organisational governance, particularly as this applies to the quality of the Health Board's services, is not something which can be quickly achieved. Whilst it is relatively easy to see the early implementation of process improvements and structural changes, these are essentially the foundations of improvement, and the achievement of effective leadership and governance will ultimately depend on the Board delivering behavioural change and refocused organisational values.

In my view there were three important early steps which the Health Board needed to take in light of the leadership and governance failures that had come to light. The first of these was to demonstrate insight into and an understanding of what had gone wrong. The second was to accept responsibility for what had occurred. The third was to commit to rectifying the situation. By demonstrating insight, accepting responsibility and committing to improvement the Health Board has provided some early assurance that it can successfully deliver the necessary leadership and governance outcomes.

#### Reporting to the Minister

During my six month contract I will have reported directly to the Minister on three occasions. I have provided the Minister with a written progress report covering the first four months. I have remained in regular contact with Janet Davies, Deputy Director, Welsh Government Health and Social Services Group and lead officer for the Cwm Taf Morgannwg interventions.

I look forward to meeting you and your Committee on 17 October and I will be pleased to provide further information regarding my work with Cwm Taf Morgannwg University Health Board as part of the Welsh Government's Targeted Intervention support.

Yours sincerely



**David Jenkins**  
**Independent Advisor to Cwm Taf Morgannwg UHB**

# Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Gwybodaeth ychwanegol gan y  
Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned  
a'r 7 CIC yng Nghymru

Hydref 2019



# Cynnwys

	<b>Rhif tudalen</b>
<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Gwneud sylwadau</b>	<b>2</b>
<b>Sicrhau annibyniaeth i'r corff newydd</b>	<b>6</b>
<b>Atodiad: Trefniadau sefydlu a phenodi</b>	<b>11</b>



## CEFNDIR

Roedd y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (Bwrdd CICau) a'r CICau yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, ar ddarpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), ym mis Medi 2019.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am ddau bwnc trafod pwysig yn ein sesiwn dystiolaeth:

- Trefniadau'r Bwrdd a'r CICau ar gyfer gwneud sylwadau
- Sicrhau annibyniaeth i'r corff newydd.

## GWNEUD SYLWADAU

### Sut mae'r CICau yn gwneud sylwadau ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae'r CICau yng Nghymru yn gwneud sylwadau i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG mewn cyfuniad o ffyrdd:

- **Mynychu a chyfranogi yng nghyfarfodydd bwrdd cyhoeddus cyrff y GIG**

Mae cynrychiolwyr y CICau yn mynychu a chyfrannu yng nghyfarfodydd bwrdd cyhoeddus eu byrddau iechyd lleol, fel mater o drefn. Maen nhw gan amlaf yn gyfranogwyr gweithgar yn nhreffodaethau'r bwrdd, gan gynnwys craffu ar gynlluniau a pherfformiad y bwrdd iechyd. Maent yn gwneud hyn o safbwynt lleyg, gan adlewyrchu barn a chynrychioli buddiannau pobl a chymunedau.

Nid ydynt yn cyfranogi ym mhenderfyniadau bwrdd iechyd. Mae eu sylwadau yn goleuo penderfyniadau bwrdd iechyd.

- **Mynychu a chyfranogi ym mhwyllgorau a grwpiau eraill bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth y GIG**

Mae cynrychiolwyr y CICau yn mynychu amrywiaeth o bwyllgorau sefydlog eu byrddau iechyd lleol yn rheolaidd, yn benodol, y pwyllgor a sefydlwyd i ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf. Mae eu rôl ar y pwyllgorau hyn yn debyg i'w rôl mewn cyfarfodydd bwrdd cyhoeddus.

Mae cynrychiolwyr y CICau yn cyfranogi hefyd mewn amrywiaeth o weithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen, a sefydlwyd i ganolbwyntio ar dasgau neu brosiectau penodol, sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau. Gall hyn gynnwys datblygiadau yng nghyffwrdd y GIG yn Lloegr, sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru.

- **Y GIG yn mynychu a chyfranogi mewn amrywiaeth o bwyllgorau'r CICau**

Mae amrywiaeth o bwyllgorau statudol gan y CICau. Maent yn cynnwys pwyllgor gwaith, pwyllgor cynllunio gwasanaethau (y mae'n rhaid iddo gael cyfarwyddwr cynllunio bwrdd iechyd yn aelod) a phwyllgor lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ardal y CIC.

Mae cynrychiolwyr y bwrdd iechyd perthnasol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, fel mater o drefn, i ymateb i sylwadau aelodau perthnasol y CIC. Gall hyn ymwneud â chynlluniau'r GIG, neu berfformiad gwasanaethau'r GIG, ar gyfer pobl sy'n byw yn ardal/oedd awdurdod lleol penodol.

Gall cyrff y GIG yn Lloegr, sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru, fynychu'r cyfarfodydd hyn hefyd, i drafod gwasanaethau penodol.

- **Cyd-gyfarfodydd y CICau - bwrdd iechyd**

Mae'r CICau a'u bwrdd iechyd lleol yn cwrdd, o leiaf unwaith bob 3 mis (yn unol â'r gofynion statudol), i drafod materion cyfredol sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd ledled ardal bwrdd iechyd, a materion eraill y cytunwyd arnynt.

- **Cyfarfodydd un ac un**

Mae prif swyddogion a chadeiryddion y CICau yn cwrdd yn rheolaidd gyda chadeiryddion a phrif weithredwyr byrddau iechyd, i drafod datblygiadau a materion cyfredol.

Cynhelir cyfarfodydd un ac un yn fynych, rhwng cynrychiolwyr y CICau a rheolwyr byrddau iechyd, i drafod datblygiadau lleol, materion yn ymwneud â chynlluniau a phryderon.

- **Adroddiadau'r CICau ar eu gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys ymweld)**

Mae'r CICau yn paratoi adroddiadau ysgrifenedig ar ganlyniadau eu gweithgareddau ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar eu hymweliadau, i glywed gan bobl wrth iddynt dderbyn gwasanaethau'r GIG, ac i weld drostynt eu hunain sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am yr hyn mae pobl yn meddwl sy'n gweithio'n dda, a'r hyn sydd angen ei wella.

- **Adroddiadau ffurfiol y CICau ar gynigion newid gwasanaeth**

Yn ogystal â gwneud sylwadau mewn pwyllgorau a chyfarfodydd eraill, mae'r CICau yn gwneud sylwadau ysgrifenedig ffurfiol hefyd, i gyrff y GIG ynghylch cynigion newid gwasanaeth – yn unol â'r canllawiau presennol ar ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch newidiadau i wasanaethau'r GIG.

- **Llythyrau ysgrifenedig ar faterion neu bryderon penodol**

Gall y CICau wneud sylwadau, yn ysgrifenedig, i arweinwyr a rheolwyr byrddau iechyd, am broblemau neu faterion penodol, gan geisio sicrwydd neu wybodaeth.

## **Cael ymateb**

Mae'r CICau yn cael ymatebion gan gyrff y GIG i'w sylwadau mewn amrywiol ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymatebion di-oed (neu ymrwymiad i ddarparu'r fath ymatebion) i sylwadau'r CICau mewn cyfarfodydd
- Ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r CICau ar eu gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys ymweld). Mae'r ymatebion hyn yn cynnwys camau gweithredu i wneud gwelliannau, lle bo angen
- Ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau / llythyrau y CICau ar gynigion newid gwasanaeth
- Ymatebion ysgrifenedig i lythyrau ynghylch materion neu bryderon penodol.

Yn y mwyafrif o achosion, mae ymatebion gan gyrrff y GIG yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, neu maent ar gael yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, e.e., mewn perthynas â sylwadau sy'n cael eu gwneud ar ran cleientiaid eiriolaeth cwynion, cedwir ymatebion yn gyfrinachol.

## **Uwchgyfeirio materion**

Yn y mwyafrif o achosion, nid oes angen i'r CICau uwchgyfeirio materion er mwyn cael ymatebion i'w sylwadau. Weithiau, mae ymatebion yn cymryd gormod o amser, e.e., wrth ddarparu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau ymgysylltu. Mae rhai CICau wedi cytuno ar eu hamserlenni hiraf ar gyfer ymatebion gyda'u byrddau iechyd.

Gall y CICau uwchgyfeirio materion, lle nad ydynt wedi cael ymateb, neu lle bo'r ymateb yn annigonol mewn amrywiol ffyrdd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Codi'r mater ar lefel uwch o fewn corff y GIG, yn bersonol neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys yn uniongyrchol gyda'r cadeirydd a/neu'r prif weithredwr
- Atgyfeirio pryderon i'r Gweinidog (pan na ellir dod i gytundeb ar gynigion newid gwasanaeth).

## Rôl y Bwrdd CICau wrth gynrychioli barn gyfunol y CICau

Mae rôl statudol, benodol gan y Bwrdd CICau wrth gynrychioli barn gyfunol y CICau i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn cynrychioli barn gyfunol y CICau i gyrff y GIG, a chynrychiolwyr sy'n gweithredu ar sail ranbarthol neu genedlaethol.

Mae'n gwneud hyn mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r rhain yn gyson, i raddau helaeth, gyda rhai'r CICau, gan gynnwys, e.e.,:

- Mynychu a chyfranogi yn amrywiaeth o weithgorau / fforymau polisi Llywodraeth Cymru a'r GIG, e.e., y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol
- Mynychu a chyfranogi ym mhwyllgorau sefydlog cyrff cenedlaethol y GIG, e.e., Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Adroddiadau cenedlaethol ar weithgareddau'r CICau ledled Cymru (gan gynnwys ymweld), e.e., gwasanaethau cludo cleifion di-argyfwng, Cyfathrebu yn y GIG
- Cynrychioli barn gyfunol ar y dull a ddefnyddir ar gyfer cynigion newid gwasanaeth rhanbarthol, a chrynhoi barn y CICau ar y cynigion hynny (lle bo hynny'n briodol)
- Llythyrau ysgrifenedig ar faterion neu bryderon penodol, e.e., amserau aros hir am wasanaethau sgrinio

Mae'r trefniadau ar gyfer cael ymatebion yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir gan y CICau unigol, gydag ymatebion a gafwyd gan grwpiau a chyrff rhanbarthol / cenedlaethol y GIG. Y trefniadau uwchgyfeirio fyddai'n uniongyrchol i'r Gweinidog, lle bo angen.

Byddem yn hapus i roi enghreifftiau pe byddai'r pwyllgor yn ystyried hyn yn ddefnyddiol.

## SICRHAU ANNIBYNIAETH I'R CORFF NEWYDD

Er mwyn i bobl yng Nghymru ymddiried y gall corff llais y dinesydd newydd adlewyrchu eu barn a chynrychioli eu buddiannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru yn effeithiol, mae'n bwysig ei fod yn cael ei ystyried i fod, a'i fod mewn gwirionedd, mor annibynnol â phosib.

**Rhaid galluogi a chynnal ei allu i benderfynu ar ei flaenoriaethau, mewn ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl, i gyflawni ei waith heb ddylanwad gormodol, ac i gynrychioli buddiannau pobl mewn ffordd ddiymatal, drwy'r ffordd y mae wedi'i sefydlu a'r ffordd y mae'n gweithredu.**

Mae'r CICAu wedi edrych ar y gwahanol ffyrdd y ceisiwyd annibyniaeth ar gyfer cyrff llais y dinesydd eraill yn y DU, yn ogystal ag ar gyfer cyrff â rolau cyhoeddus annibynnol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae manylion y cyrff hyn wedi'u nodi yn yr **Atodiad**. Maen nhw'n dangos y defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau:

### **Creu annibyniaeth o ran y ffordd mae corff yn cael ei sefydlu**

Mae nifer o rolau a chyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi cael eu creu mewn ffordd a gynlluniwyd i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau penodol mewn ffordd annibynnol. Ni ddefnyddiwyd dull unigol na chyson, ac mae'r amrywiaeth o ddulliau'n cynnwys:

- **Penodiadau'r Goron**

Defnyddir y dull hwn yng Nghymru i benodi unigolion i rolau lle mae pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol, i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau, yn gorwedd gydag unigolyn.

Mae hyn yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (PAEM), gyda chymorth Estyn, ac Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), gyda chymorth swyddfa OGCC.

Yn y 3 achos hwn, daw'r argymhelliad i'r Goron benodi i'r rolau hyn oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r trefniadau cyllido yn wahanol, gyda'r cyllid ar gyfer ACC ac OGCC yn cael ei osod gan y Cynulliad Cenedlaethol, a'r cyllid ar gyfer Estyn yn cael ei osod gan Weinidogion Cymru.

Mae'r trefniadau cyllido ar gyfer Estyn wedi eu hamlinellu mewn llythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru, sydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn i gyflawni gweithgareddau penodol.

#### ▪ **Penodiadau gan Weinidogion Cymru**

Defnyddir y dull hwn yng Nghymru i benodi unigolion i rolau lle mae pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau yn gorwedd gydag unigolyn, neu gyda bwrdd llywodraethol.

Mae hyn yn cynnwys Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg, yn ogystal ag amrywiaeth o Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru, e.e., Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae penodiadau i bob un o'r rolau arwain a llywodraethu hyn wedi cael eu goruchwyllo gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus – drwy gystadleuaeth agored o fewn fframwaith côd llywodraethu ac egwyddorion ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

O fewn y fframwaith hwn, mae ystod o fesurau diogelwch ychwanegol wedi'u sefydlu mewn statud ar gyfer penodiadau arbennig. Er enghraifft:

- rhaid i'r Prif Weinidog ystyried barn pobl hŷn wrth benodi'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- cyn penodi'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy ei bwyllgor cyfrifol

- rhaid i'r panel dethol ar gyfer penodi Comisiynydd y Gymraeg gynnwys aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a enwebwyd gan bwylgor perthnasol (oni bai fod y pwyllgor yn gwrthod gwneud enwebiad neu'n methu â gwneud hynny o fewn amser rhesymol).

Mae'r CICau yn nodi, nad lefel yr annibyniaeth sydd wedi'i hymgorffori drwy'r trefniadau penodi ar gyfer cyrff neu rolau penodol yw'r unig ffactor sy'n penderfynu a yw'r cyhoedd yn canfod bod rôl neu gorff arbennig yn annibynnol ar y llywodraeth.

Er enghraifft, mae yna ganfyddiad clir o annibyniaeth ymhlith y cyhoedd ar gyfer rolau'r Comisiynydd a'r CICau yng Nghymru. Mae hyn er gwaethaf y trefniadau penodi a chyllido gan Weinidogion cyfredol.

## **Amddiffyn annibyniaeth drwy drefniadau a fframwaith gweithredu'r corff**

Beth bynnag yw'r model ar gyfer sefydlu'r corff llais y dinesydd newydd a phenodi ei fwrdd llywodraethol, mae'r CICau o'r farn ei bod yn hanfodol bod ei fframwaith weithredu, nid yn unig yn amddiffyn ei annibyniaeth weithredol (rhag cyrff y llywodraeth a chyrff iechyd a gofal), ond hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu ei hun a chyflawni ei weithgareddau mewn ffordd sy'n ymatebol, ac yn cynrychioli'r bobl a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ledled Cymru.

Mae'r CICau o'r farn y bydd rhai o'r elfennau allweddol, a nodwyd yn ein cyflwyniad cynharach, yn cyfrannu at hyn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyflwyno proses annibynnol i ymchwilio i bryderon nad yw cyrff yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol, nac yn cyflawni'r disgwyliadau a draethwyd yn y bil a'r memorandwm esboniadol.

Mae hefyd yn cynnwys yr egwyddor sylfaenol y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r corff newydd weithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, mewn ffordd sy'n:



- ymgorffori'r egwyddor o wneud penderfyniadau mor agos â phosib i'r bobl a effeithir
- darparu ar gyfer penderfynu ar flaenoriaethau'n lleol, yn unol â thystiolaeth o anghenion lleol
- darparu'r ystwythder i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- mae ganddo gyfuniad cryf o aelodau gwirfoddol lleol, sy'n cynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Ers dros 40 mlynedd, mae'r CICau wedi gweithio'n galed i gynrychioli buddiannau'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn eu GIG. Maen nhw wedi gwneud hynny, er gwaethaf fframwaith llywodraethu a gweithredu sydd weithiau'n aneglur, cymhleth, rhy ragnodol, a gyda risg barhaus y gallai eu hannibyniaeth gael ei beryglu.

Mae'n hanfodol bod y corff llais y dinesydd newydd yn cael ei sefydlu mewn ffordd sy'n osgoi hyn i gyd, tra hefyd yn caniatáu i'r corff ddatblygu ei drefniadau a'i ffyrdd o weithio, mewn ymateb i ofynion newidiol.

Dylai ei fwrdd llywodraethol fod yn cynrychioli'r bobl mae'n eu gwasanaethu ledled Cymru.

Mae'n amlwg, o'n golwg fras ar gyrff eraill, nad oes un ffordd unigol o sefydlu corff annibynnol a chynrychiolaidd. Felly, dylid cymryd gofal i ddysgu o ddulliau cynharach, wrth benderfynu ar y ffordd orau o wneud hyn ar gyfer y corff llais y dinesydd newydd, drwy ei ddarpariaethau statudol ac ategol.

Yn olaf, er na ellir tanbriso pwysigrwydd sefydlu annibyniaeth i'r corff newydd, does dim llawer o bwrpas gwneud hynny heb hefyd sicrhau bod ganddo'r adnoddau cywir i wneud y gwaith.

Mae'r CICau o'r farn bod sefydlu'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn ei gyflwyniad cynharach, drwy **ddyletswyddau a phwerau cyfreithiol penodol** (wedi'u cefnogi gan ganllawiau) ac **adnoddau digonol**, yn hanfodol i gyflawni hyn.

Heb y rhain, bydd gan Gymru gorff llais y dinesydd newydd, gyda chylch gwaith ehangach ar draws iechyd a gofal cymdeithasol – ond heb y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd eu hangen, fel y gall gyflawni ei rôl.



<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

### Cyrff llais y dinesydd statudol y DU<sup>1</sup>

Tudalen y pecyn 25	<p>Y Bwrdd CICau a CICau yng Nghymru</p> <p>Wedi’u sefydlu gyntaf ym 1974, mae’r CICau yn gweithredu yng Nghymru o dan ddarpariaethau Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2010 (2010/288 (W.37)), fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Diwygio) 2015 (2015/509 (W.43)), yn diffinio cyfansoddiad a threfniadau aelodaeth y Bwrdd CICau a’r CICau.</p> <p>Ariennir y Bwrdd CICau a’r CICau gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi penodi Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIA Powys) i weithredu fel sefydliad cynnal ar gyfer y Bwrdd CICau a’r CICau. Mae’r sefydliad cynnal yn rhoi cymorth ariannol ac adnoddau dynol i’r Bwrdd CICau a’r CICau, ond mae’r Bwrdd CICau a’r CICau yn atebol i Weinidogion Cymru, a rhaid cyflawni eu swyddogaethau yn unol â’r rheoliadau ac unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru. Caiff staff y Bwrdd CICau a’r CICau eu cyflogi gan BIA Powys.</p>
--------------------	---

<sup>1</sup> Cafwyd yr wybodaeth o wefannau’r cyrff unigol a gwefan y llywodraeth [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk)

<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

	<p>Nid oes gan y Bwrdd CICau a'r CICau unrhyw statws cyfreithiol i ymrwymo i gontractau yn eu henwau eu hunain. Mae'r sefydliad cynnal yn contractio ar ran y Bwrdd CICau a'r CICau, i sicrhau bod swyddogion a chyfleusterau'n cael eu darparu.</p> <p>Mae gan y Bwrdd CICau 12 aelod, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cadeirydd annibynnol a 2 aelod annibynnol, wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru, drwy'r broses penodiadau cyhoeddus</li> <li>▪ 7 Cadeirydd CIC (o bob un o'r 7 CIC)</li> <li>▪ Aelod sy'n Swyddog</li> <li>▪ Y Prif Weithredwr</li> </ul> <p>Mae gan bob un o'r 7 CIC (sydd wedi'u halinio â byrddau iechyd) bwyllgor gwaith llywodraethol a phwyllgor lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol o fewn ôl troed y bwrdd iechyd. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys 12 aelod llawn, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ 6 aelod wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru, drwy'r broses penodiadau cyhoeddus</li> <li>▪ 3 wedi'u henwebu gan y trydydd sector</li> <li>▪ 3 wedi'u henwebu gan yr awdurdod lleol.</li> </ul>
--	--

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
	<p>Felly, mae aelodaeth y CICau unigol yn amrywio o 72 (CIC Gogledd Cymru sydd â 6 ardal awdurdod lleol o fewn ôl troed y bwrdd iechyd) i 24 (e.e., CIC Bae Abertawe sydd â 2 ardal awdurdod lleol o fewn ôl troed y bwrdd iechyd).</p>
Healthwatch England	<p>Sefydlwyd Healthwatch England o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, fel pwyllgor statudol y Comisiwn Ansawdd Gofal.</p> <p>Mae Rheoliadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (Healthwatch England) 2012 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi'r pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Caiff y Cadeirydd ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol</li> <li>▪ Mae'r Cadeirydd yn penodi holl aelodau eraill y pwyllgor (nid llai na 6 ac nid mwy na 12) o fewn y fframwaith canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- nid yw mwyafrif yr aelodau yn aelodau o'r Comisiwn;</li> <li>- dylai'r bobl a benodir (cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol) gynnwys pobl â gwybodaeth am brofiad perthnasol i'r swyddogaethau a arferir gan Healthwatch England);</li> <li>- mae'r trefniadau ar gyfer dethol a phenodi pobl yn aelodau yn ystyried yr egwyddor dylai dethol a phenodi aelodau fod yn</li> </ul> </li> </ul>

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

Tudalen y pecyn 28

	<p>agored a thryloyw, ac yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yng Nghôd Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- rhaid iddynt ystyried yr angen i annog amrywiaeth yn yr ystod o bobl y gellir eu penodi</li> <li>- gallant benodi hyd at 4 aelod sy'n gyfarwyddwyr ar sefydliadau Local Healthwatch, ar yr amod nad ydynt yn aelodau o'r Comisiwn, ac na phenodir mwy nag un aelod o bob rhanbarth yn Lloegr.</li> </ul> <p>Daw'r cyllid oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, drwy'r CAG. Mae'n atebol i'r CAG.</p>
Local Healthwatch	<p>Mae pob corff Healthwatch Local yn Lloegr (sydd wedi'u halinio ag ardaloedd awdurdod lleol), yn cael ei gomisiynu, ei ariannu ac yn atebol i awdurdodau lleol, o fewn fframwaith rheoleiddio a chontractio, a sefydlwyd yn NHS Bodies and Local Authorities (Partnership Arrangements, Care Trusts, Public Health and Local Healthwatch) Regulations 2012.</p> <p>Mae cyrff Local Healthwatch yn derbyn arweinyddiaeth, cyfarwyddyd, cefnogaeth a chyngor ar gyfer sefydliadau Local Healthwatch.</p>

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

	<p>Gall cyrff, megis mentrau cymdeithasol, gynnig i ddarparu'r swyddogaeth Local Healthwatch. Y maen prawf ar gyfer hyn yw "rhaid i drefniadau llywodraethu'r corff gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnwys lleygwyr a gwirfoddolwyr yn llywodraethiant y corff".</p> <p>Yn gyffredinol, mae cyrff Local Healthwatch yn gwneud hyn drwy aelodaeth leyg o fwrdd cynghori ac aelodaeth wirfoddol i fynd ar ymweliadau ac i ymgysylltu ayb.</p>
<p>Patient and Client Council (Gogledd Iwerddon)</p>	<p>Wedi'i sefydlu drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009, mae'r Patient and Client Council (Membership and Procedure) Regulations (Northern Ireland) 2009 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llywodraethiant y corff.</p> <p>Mae'r Adran Iechyd yn penodi'r Cyngor llywodraethol, sy'n cynnwys 16 o aelodau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ 5 aelod o gynghorau dosbarth;</li> <li>▪ 5 cynrychiolydd o fudiadau gwirfoddol â diddordeb mewn iechyd a gofal cymdeithasol; ac</li> <li>▪ 1 cynrychiolydd o undeb llafur.</li> </ul>

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

	Bydd y Cyngor yn penodi pwyllgorau ar gyfer meysydd penodol, a gall benodi pwyllgorau eraill hefyd.
Scottish Health Council	<p>Wedi'i sefydlu drwy bwerau yn Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978, mae'r NHS Quality Improvement Scotland (Establishment of the Scottish Health Council) Regulations 2005, yn ei gwneud yn ofynnol i Quality Improvement Scotland (a elwir erbyn hyn yn Healthcare Improvement Scotland – y rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol) i sefydlu pwyllgor, a elwir y Scottish Health Council. Caiff y pwyllgor llywodraethol ei benodi gan, ei ariannu, mae'n adrodd ac yn atebol i Healthcare Improvement Scotland (sy'n awdurdod iechyd arbennig).</p> <p>Mae ganddo rwydwaith o 14 <u>swyddfa</u> ledled Yr Alban - un ym mhob ardal Bwrdd GIG - a <u>swyddfa genedlaethol</u> yng Nglasgow.</p>



<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

<b>Rolau a chyrrff cyhoeddus Cymru: penodiadau a wneir gan y Goron</b>	
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)	<p>Yn dilyn Deddf Seneddol, penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Goron, ar argymhelliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol, i gynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau.</p> <p>Mae Bwrdd statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys 9 aelod. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Cadeirydd a 4 aelod anweithredol arall i'r Bwrdd. Yr aelodau eraill yw'r Archwilydd Cyffredinol a 3 gweithiwr.</p> <p>Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) ac Estyn	Caiff penodiad, swyddogaethau a phwerau Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) eu pennu gan ddeddfwriaeth: yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Plant 2004. Mae eu sefyllfa statudol wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

Tudalen y pecyn 32

	<p>Mae Estyn yn gorff y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Daw ei swyddogaethau a'i bwerau o rhai'r PAEM. Mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond mae'n derbyn ei gyllid gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.</p> <p>Mae Bwrdd Strategaeth a Bwrdd Gweithredol gan PAEM. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn cynnwys aelodau anweithredol a benodwyd gan PAEM, drwy gystadleuaeth agored.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu'r cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru mewn blwyddyn benodol. Mae'n diffinio rhaglen waith benodol, sy'n ychwanegol at arolygiadau craidd Estyn, ac mae'n cynnwys, e.e., adolygiadau thematig.</p>
Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	<p>Caiff Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ei benodi gan y Goron, ar argymhelliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r penodiad am uchafswm o 8 mlynedd.</p> <p>Mae'r OGCC yn gorfforaeth undyn.</p> <p>Mae'r OGCC wedi sefydlu panel cyngori anstatudol, i roi cymorth a chyngor iddo wrth ddarparu arweinyddiaeth a llywodraethu da yn ei</p>

<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

	<p>swyddfa.</p> <p>Mae'r OGCC yn derbyn cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr OGCC yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
--	--

<b>Detholiad o rolau a chyrrff cyhoeddus Cymru: penodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru</b>	
--	--

Arolygiaeth Gofal Cymru	<p>Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Arolygydd a'i staff yn weision sifil, sy'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Diffinnir ei annibyniaeth weithredol drwy gytundeb ysgrifenedig ffurfiol.</p>
-------------------------	---

Comisiynydd Plant Cymru	<p>Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac estynnwyd cylch gwaith y swydd gan 'Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru (2001)'.</p> <p>Caiff penodiadau i rôl y Comisiynydd Plant eu gwneud gan Weinidogion Cymru (y Prif Weinidog yn yr achos hwn), drwy broses penodiadau cyhoeddus. Mae'r comisiynydd yn 'Gorfforaeth Undyn'.</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant. Y</p>
-------------------------	--

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
	<p>Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu penodedig ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r Comisiynydd Plant wedi sefydlu 2 banel cyngori, a chaiff yr aelodau eu penodi gan y Comisiynydd.</p>
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weithredwr a'i staff yn weision sifil, sy'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Diffinnir ei annibyniaeth weithredol drwy gytundeb ysgrifenedig ffurfiol.
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	<p>Sefydlwyd swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)'.</p> <p>Caiff penodiadau i rôl y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol eu gwneud gan Weinidogion Cymru, drwy broses penodiadau cyhoeddus. Cyn penodi, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy ei bwyllgor cyfrifol.</p> <p>Yn ymarferol, cafodd y Comisiynydd presennol ei benodi gan ddefnyddio'r cyfarwyddyd a draethwyd yn y Côt Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus. Roedd y panel penodi'n cynnwys cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol yng Nghynulliad</p>

<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

Tudalen y pecyn 35	<p>Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid ar gyfer y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu penodedig ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Rhoddir cyngor i'r Comisiynydd ar arfer ei swyddogaethau, drwy benodi panel Cyngori statudol. Aelodau'r Panel Cyngori yw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) Comisiynydd Plant Cymru;</li> <li>(b) Comisiynydd y Gymraeg;</li> <li>(c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;</li> <li>(d) yr aelod o staff Llywodraeth Cymru y mae Gweinidogion Cymru wedi'i enwi'n Brif Swyddog Meddygol Cymru;</li> <li>(e) cadeirydd Corff Adnoddau Naturiol Cymru, neu aelod anweithredol arall o'r corff hwnnw, a ddewiswyd gan y cadeirydd;</li> <li>(f) swyddog o'r corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru, a elwir yn TUC Cymru, a enwebwyd gan y corff hwnnw;</li> <li>(g) caiff cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog tebyg i Weinidogion Cymru benodi o gorff sy'n cynrychioli personau sy'n cynnal busnes yng</li> </ul>
--------------------	---

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

	<p>Nghymru; (h) unrhyw berson arall sy'n cael ei benodi gan Weinidogion Cymru.</p>
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	<p>Sefydlwyd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.</p> <p>Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007 (diwygiwyd gan Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016) yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi'r Comisiynydd.</p> <p>Caiff y Comisiynydd ei benodi gan Weinidogion Cymru (y Prif Weinidog), a dim ond ar ôl ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) barn pobl hŷn sy'n preswyllo yng Nghymru, a ddewiswyd gan y Prif Weinidog, am unrhyw ymgeiswyr a gyfwelwyd ar gyfer y penodiad; a</li> <li>(b) cyngor unrhyw banel dethol, a sefydlwyd at ddibenion cyfweld ymgeiswyr, ynghylch eu haddasrwydd i'w penodi.</li> </ul> <p>Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn gorfforaeth undyn.</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyllid. Y Comisiynydd yw'r Swyddog</p>

Corff cyhoeddus	Trefniadau sefydlu
-----------------	--------------------

Tudalen y pecyn 37

	Cyfrifyddu penodedig ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru.
Gofal Cymdeithasol Cymru	<p>Ailenwyd Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol ag adran 67 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ar ôl cael ei sefydlu i gychwyn fel Cyngor Gofal Cymru, yn unol ag adran 54 Deddf Safonau Gofal 2000.</p> <p>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Caiff y Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd eu penodi gan Weinidogion Cymru, yn unol â Chôd Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.</p> <p>Caiff y Prif Weithredwr ei benodi gan y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, ac ef yw Swyddog Cyfrifyddu'r Corff.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ac yn dyrannu cyllid i Ofal Cymdeithasol Cymru, yn unol â chylch gwaith grant.</p>
Comisiynydd y Gymraeg	Wedi'i sefydlu drwy bwerau ym Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, mae Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 yn diffinio trefniadau penodi'r Comisiynydd.

<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

Tudalen y pecyn 38	<p>Y rhain yw, ar gais y Prif Weinidog (sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch penodi), bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynnull panel dethol i benodi Comisiynydd, yn unol ag egwyddorion Côd Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.</p> <p>Rhaid i'r panel dethol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Aelod o staff Llywodraeth Cymru</li> <li>▪ Person wedi'i achredu gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i ymddwyn fel asesydd penodiadau annibynnol</li> <li>▪ Person sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod ganddo brofiad perthnasol</li> <li>▪ Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a enwebwyd gan bwyllgor perthnasol (oni bai fod y pwyllgor yn gwrthod gwneud enwebiad neu'n methu â gwneud hynny o fewn amser rhesymol).</li> </ul> <p>Mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn.</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyllid. Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu penodedig ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Wrth arfer swyddogaethau yn ymwneud â'r Comisiynydd, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y ffaith ei bod yn ddymunol sicrhau bod y</p>
--------------------	---



<b>Corff cyhoeddus</b>	<b>Trefniadau sefydlu</b>
------------------------	---------------------------

	<p>Comisiynydd dan gyn lleied o gyfyngiadau ag sy'n rhesymol o bosib wrth benderfynu ar ei -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) weithgareddau,</li> <li>(b) amserlenni, a</li> <li>(c) blaenoriaethau.</li> </ul> <p>Rhaid i Weinidogion Cymru benodi Panel Cyngori i'r Comisiynydd.</p>
--	--

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon